**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp Addysg a
Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru

9 Ebrill 2019

**Cynghorau Tref a Chymuned**

Yn 2018, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol saith adroddiad er budd y cyhoedd ar gynghorau tref a chymuned unigol. Cyhoeddwyd dau adroddiad arall yn 2019, ac mae'r Pwyllgor yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd yn cyhoeddi adroddiadau pellach yn 2019-20.

Yn ogystal â'r adroddiadau hyn er budd y cyhoedd, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ddau adroddiad cenedlaethol gyda'r nod o hyrwyddo'r broses o wella rheolaeth a llywodraethu ariannol yn y sector, sef 'Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Cymuned a Thref 2017-18'; a 'Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru', a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019.

Mae 'Rheoli Ariannol a Llywodraethu – Cynghorau Cymuned a Thref 2017-18' cynnwys y canfyddiadau a ganlyn:

1. Mae nifer gynyddol o gynghorau yn dal symiau mawr o gronfeydd arian parod wrth gefn, ac mewn llawer o achosion, nid oes ganddynt ddiben clir ar gyfer dal yr arian hwn;
2. Mae'r symiau cynyddol hyn o gronfeydd wrth gefn yn cael eu hariannu drwy godi taliadau uwch ar gyfer y dreth gyngor;
3. Mae gormod o gynghorau yn methu â chydymffurfio â gofynion hirsefydlog mewn perthynas â pharatoi cyfrifon ac ar gyfer archwiliadau statudol, gan

gynnwys methu â gwneud trefniadau priodol ar gyfer archwilio cyfrifon yn gyhoeddus;

4. Er mai methu â chydymffurfio â'r fframwaith cyfrifon ac archwilio statudol oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros gyhoeddi barn archwilio amodol, nododd archwilwyr faterion eraill a oedd yn codi'n gyson, gan nodi nad yw cynghorau wedi dysgu gwersi o'r adroddiadau blynyddoedd a gyhoeddwyd yn flaenorol; a
5. Defnyddiodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bwerau adrodd statudol mewn perthynas ag wyth cyngor yn 2018. Mae'r gwersi a nodwyd yng nghyd-destun y cynghorau hyn yn berthnasol i gynghorau eraill ledled Cymru.

Mae 'Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru' yn cynnwys y canfyddiadau a ganlyn:

1. Ni allem benderfynu a oedd gan tua 10 y cant o gynghorau archwilydd mewnol yn ei le;
2. Nid yw tua 20 y cant o archwilwyr mewnol yn ddigon annibynnol ar y cynghorau y maent yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer;
3. Nid oes gan ddwy ran o dair o gynghorau (tua 66 y cant) gylch gorchwyl sy'n ddigonol o ran diffinio rolau a chyfrifoldebau'r broses archwilio mewnol;
4. Roedd un rhan o dair o'r adroddiadau archwilio mewnol a gyhoeddwyd (tua 33 y cant) yn rhoi sicrwydd i gynghorau a oedd yn anghyson â'r dystiolaeth a oedd ar gael i archwilwyr allanol; ac
5. Roedd ansawdd yr adroddiadau a'r cofnodion archwilio ategol yn amrywio ar draws y sector.

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad o'r sector cynghorau tref a chymuned o dan arweiniad Gwenda Thomas a Rhodri Glyn Thomas, a bod adroddiad y panel adolygu annibynnol wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2018.

Er nad ydynt yn ceisio dwyn Cynghorau Tref a Chymuned unigol i gyfrif, mae adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ac adroddiad y panel adolygu annibynnol yn codi cwestiynau ehangach am lywodraethu, rheoli ariannol ac atebolrwydd yn y sector hwn.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu'n arbennig i glywed yr Archwilydd Cyffredinol yn dweud bod archwilwyr, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn datgelu diffygion ledled Cymru a bod y sefyllfa'n gwaethygu. Rydym yn pryderu y gallai'r cyrff bach hyn fod yn gweithredu heb y gefnogaeth a'r mentora angenrheidiol y mae eu hangen arnynt i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau angenrheidiol. Ar ben hynny, gydag incwm yn cynyddu a chyfrifoldebau'n tyfu, a'r posibilrwydd o ddiwygio llywodraeth leol ar y gorwel, mae'n hanfodol bod y sector yn dangos gwelliant ym maes rheoli ariannol.

Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb gan Lywodraeth Cymru i ganfyddiadau'r panel adolygu annibynnol a'r canfyddiadau yn y ddau adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, a hynny er mwyn cadarnhau pa gamau sy'n cael eu cymryd, a pha gymorth sy'n cael ei ddarparu yn y maes hwn.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**